OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2021 Rhif 1157 (Cy. 283)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Court Farm, Torfaen i Gylchfan Hardwick, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Hydref 2021* |
| *Yn dod i rym* | *16 Hydref 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A4042, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Court Farm, Torfaen i Gylchfan Hardwick, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Hydref 2021.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 16 Hydref 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A4042 Casnewydd i Amwythig;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Cyfyngiadau a gwaharddiad

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn

---

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

### Atal Dros Dro

**6.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

### Cymhwyso

**7.**—(1) Nid yw'r cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw terfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

### Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 11 Hydref 2021

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## ATODLEN 1

### Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 49 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Court Farm hyd at bwynt 20 metr i'r de o'i chyffordd â Croes y Pant Lane ger Penperllenni.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 107 o fetrau i'r de o ganolbwynt y fynedfa i'r annedd o'r enw Maes-y-Beryn hyd at bwynt 18 metr i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r Briffordd Sirol i Faerdy.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 110 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd

â Phen-Heol-y-Bwra hyd at bwynt 106 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4269 i Lan-ffwyst.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 201 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Hardwick Lane hyd at bwynt 35 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cylchfan Hardwick.

## ATODLEN 2

### Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Gwahardd Goddiweddyd yn ystod Gwaith Confoi

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 49 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Court Farm hyd at bwynt 35 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cylchfan Hardwick.